



Y Rhwydwaith Arddangos

Defnyddio technoleg i wella iechyd, ffrwythlondeb a chynhyrchiant y fuches ar fferm Moelogan Fawr


Prif nod y prosiect ar safle arddangos Moelogan Fawr yw defnyddio manteision technoleg newydd i dynhau'r patrwm lloia a gwella iechyd y fuches, ac felly i gynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y fuches.

Yn ystod mis Ebrill 2020, rhoddwyd bolws i'r heffrod magu ar fferm Moelogan Fawr, Llanrwst. Bydd y bolysau Smaxtec yn rhoi adroddiad rheolaidd o dymheredd y fuwch, a fydd yn dangos pan fo heffrod yn gofyn tarw, yn ogystal â chanfod unrhyw broblemau iechyd yn gynnar.

Gan y bydd y bolws yn bresennol o fewn yr anifail yn barhaus, mae'n bosibl canfod a yw'r heffrod yn cylchu'n iawn cyn eu troi at y tarw, a fydd yn helpu i ganfod a oes unrhyw heffrod yn peri problem ac os oes angen cynnal archwiliad milfeddygol i asesu ffrwythlondeb. Unwaith bod y bolysau yn eu lle, dechreuodd y ffermwr dderbyn hysbysiadau ar unwaith dros e-bost neu neges destun. Gwelwyd fod pedair heffer yn gofyn tarw, yn ogystal â dwy heffer gyda thymheredd uchel. Yn dilyn archwiliad gan filfeddyg y fferm, gwelwyd fod twymyn ar y gwartheg yma, a chawsant eu trin ar unwaith. Fe wnaeth y ddwy heffer wella'n llawn o ganlyniad uniongyrchol o ymyrraeth gynnar. Mae'r derbynnydd yn cael ei symud gyda'r gwartheg mewn trelar da byw sydd wedi'i addasu.

Bydd data'n cael ei gasglu yn ystod y cyfnod cyn troi at y tarw ac yn cael ei ddadansoddi er mwyn gallu cyfiawnhau penderfyniadau rheolaeth. Bydd gwybodaeth a gesglir o'r bolysau'n adnodd defnyddiol yn ystod y cyfnod paru ei hun gan y bydd yn dangos pa heffrod sy'n gofyn tarw, gan roi syniad o'r amser cywir er mwyn defnyddio AI. Bydd defnyddio AI o fewn yr amser delfrydol yn cynyddu siawns yr heffrod i feichiogi ar y tro cyntaf, gan sicrhau effeithlonrwydd cynhyrchiant.

Cynhaliwyd digwyddiad ar Twitter yn trafod y prosiect hwn ar 24 Ebrill 2020 ar gyfrif Twitter Cyswllt Ffermio.



Heffrod gyda bolws ar system bori cylchdro ar fferm Moelogan Fawr; gyda'r derbynnydd sy'n defnyddio ynni solar.

Adolygu'r fenter pesgi teirw bïff: Archwilio buddion cnydau cartref ar fferm Bodwi

Prif nod y prosiect yw cynnal effeithlonrwydd y system besgi teirw bïff ar fferm Bodwi. Gwneir hyn drwy fonitro costau, a threialu dichonolrwydd cynhyrchu haidd cartref yn hytrach na phrynu dwysfwyd. Trwy dreialu tyfu a phorthi haidd cartref i deirw bïff ar fferm Bodwi, mae'r prosiect yn anelu at haneru faint o dwysfwyd a brynir i mewn.

Cafodd ardal 27 erw o haidd gwanwyn ei hau ar fferm Bodwi ar 9 Ebrill 2020. Yn syth ar ôl ei aredig, cafodd y cnwd ei rollo er mwyn cadw cymaint o leithder â phosibl o ganlyniad i'r tywydd sych yn y rhagolygon ac i sicrhau gwely hadau cadarn. Gwasgarwyd gwrtaith 15-15-15 ar gyfradd o 150kg/erw ar y gwely hadau a bydd cynnyrch yn seiliedig ar nitrogen yn cael ei ychwanegu yn ddiweddarach yn ystod y tymor. Roedd y mynegai pH yn nodi bod angen calch. Gwasgarwyd pelenni calch ar gyfradd o 200kg/erw cyn plannu. Cafodd y cnwd ei hau mewn tywydd da ar gyfradd o 75kg/erw.



Cnwd haidd gwanwyn ar fferm Bodwi, a heuwyd ar 9 Ebrill 2020.

Mae'r teirw wedi cael tymor gwych eleni, gyda DLWG o 1.9kg ar gyfartaledd ers diddyfnu. Cafodd 10 tarw ei anfon i'r lladd-dy ar 27 Ebrill 2020. Mae'r pwysau cyfartalog i'w gweld isod.

Pwysau cyfartalog teirw bïff a chynnydd pwysau byw dyddiol:

Dyddiad pwyso	Pwysau (kg)	DLWG (kg)
23/10/2019	268	
28/11/2019	316	1.3
30/12/2019	390	2.3
30/01/2020	471	2.6
17/02/2020	502	1.7
17/03/2020	535	1.1
23/04/2020	613	2.1

Rheoli'r newid o wartheg sugno i gynhyrchu bïff o'r fuches laeth ar fferm Cefn Llan


Mae prosiect safle arddangos ar fferm Cefn Llan, Llangamarch, yn canolbwyntio ar ddichonolrwydd newid o fenter draddodiadol yn cadw gwartheg sugno i fagu, tyfu a phesgi lloi llaeth Aberdeen Angus croes a brynir i mewn ar system gyda mewnbynnau isel, yn seiliedig ar y borfa.

Yn ystod mis Ebrill 2020, crëwyd cyllideb fwyd gan arbenigwr y prosiect, sef Dafydd Jones, Precision Grazing, er mwyn cyfrifo gofynion bwyd y lloi.

Roedd mesuriadau gorchudd glaswellt cyfartalog ar 16 Ebrill 2020 yn 1,522kg/DM/ha. Cafodd 36 o'r lloi eu pwyso a'u troi allan i bori, ar bwysau o 260kg ar gyfartaledd. Gosodwyd ffens drydan 1/3 o'r ffordd i'r cae lle'r oedd y lloi'n pori er mwyn eu cyflwyno i'r ffens drydan. Prynwyd y 26 llo er mwyn profi'r system cyn i 200 o loi gyrraedd y fferm yn ddiweddarach eleni.

Bydd cam nesaf y prosiect yn cynnwys 100 o loi 3-4 mis oed wedi'u diddyfnu (yn pwyso tua 140kg ar gyfartaledd) yn cyrraedd y fferm ymhen wythnos, gyda'r 100 o loi sy'n weddill yn cyrraedd y fferm ym mis Medi. Bydd costau cynhyrchiant yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn canfod dichonolrwydd y math hwn o system gynhyrchu bïff o'i gymharu â systemau mwy traddodiadol yn seiliedig ar loi sugno.

Graff 1. Cyllideb borthi a gynlluniwyd ar gyfer lloi ar fferm Cefn Llan, yn dangos twf y borfa a'r galw rhwng Ebrill a mis Tachwedd 2020.



Monitro iechyd a pherfformiad defaid ar fferm Glanmynys

Prif nod y prosiect ar fferm Glanmynys yw asesu statws iechyd a pherfformiad y ddiadell drwy gasglu data ar lefel y fferm i sicrhau system effeithlon ar gyfer cadw defaid.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Lleihau costau amrywiol (c/kg) o £47/mamog i £42/mamog
- Cynyddu allbynnau (kg/ha)
- Gwella cynnydd pwysau byw dyddiol o 270g i 300g
- Lleihau nifer cyfartalog y dyddiau hyd lladd o 164 diwrnod i 150 diwrnod

Casglwyd samplau gwaed gan sampl o'r defaid o wahanol grwpiau, gan gynnwys ŵyn benyw, ŵyn unigol, gefeilliaid a thripledi. Roedd canlyniadau'n dangos fod yr holl grwpiau o famogiaid angen bwyd ychwanegol, ond ar gyfraddau gwahanol. Rhoddwyd sgôr cyflwr corff i bob mamog hefyd: gweler y canlyniadau isod.

Sgôr Cyflwr Corff Mamogiaid – Chwefror 2020:

Grŵp Mamogiaid	BCS Isaf a gofnodwyd ar gyfer y grŵp	BCS Cyfartalog	Targed BCS ar gyfer ŵyna
Ŵyn benyw	1.75	2	3
Mamogiaid yn cario un oen	1.5	2	3
Mamogiaid yn cario gefeilliaid	1.75	2	3-5.5
Mamogiaid yn cario tripledi	1.5	2	3-3.5


Ar ôl rhoi bwyd ychwanegol yn unol â'r argymhellion, roedd y mamogiaid yn ŵyna yn yr awyr agored (heblaw am 70 o famogiaid a oedd yn cario tripledi a fu'n ŵyna dan do) yn ystod mis Ebrill, mewn tywydd ffafriol. Fe wnaeth oddeutu 550 o'r mamogiaid ŵyna yn ystod wythnos gyntaf y tymor, o'r 900 o famogiaid i gyd. Ychydig iawn o broblemau iechyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod. Roedd y problemau a gofnodwyd yn cynnwys bwrw'r llawes (a oedd yn digwydd yn amlach na'r arfer), yn ogystal â rhai achosion o glwy'r cymalau mewn ŵyn. Bydd ŵyn yn cael eu pwysu pan fyddant rhwng 6-8 wythnos oed, ac unwaith eto wrth ddiddychu. Bydd ŵyn hefyd yn derbyn drensh fel bo'r angen. Bydd iechyd a chyflwr corff y mamogiaid hefyd yn cael eu monitro yn ystod y cyfnod.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- CYNHYRCHU CIG OEN A CHYMRU: ÔL TROED AMGYLCHEDDOL HOLISTAIDD
- STRATEGAETHAU A THECHNOLEGAU I SICRHAU LLAI O GLOFFNIYMHLITH GWARTHEG
- CARBON A NEWID HINSAWDD – TROSOLWG
- A ALL FFERMIO MANWL GYWIR HELPU I LINIARU NEWID HINSAWDD?

Grwpiau Trafod



Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 36

Astudiaeth Achos

Mae Jaeanette Fisher o Tasmania yn arbenigwr ar fagu lloi, sylfaenydd a phrif ymgynghorydd i gwmni HEIFERMAX. Mae hi'n defnyddio ei harbenigedd eang i gynorthwyo busnesau i wella eu rheolaeth lloi a heffrod ac mae mwyafrif eich gwaith yn ymwneud â lloi yn ystod 4 mis cyntaf eu bywydau. Roedd Grŵp Trafod Biff Gŵyr ffodus o gael ei chroesawu i roi cyflwyniad ar reoli lloi a heffrod.

Roedd y prif bynciau trafod yn cynnwys:

- Cymeriant colostrwm
- Cymeriant bwyd
- DLWG – gall cynnydd o 100g DLWG arwain at gynhyrchu 150 litr yn ychwanegol yn ystod y llaethiad cyntaf.
- Canfod beth sy'n gwneud 'dechrau da'?
 - Nid yw lloi yn colli cyflwr
 - Cotiau'n llyfn ac yn sgleinio
 - Lloi yn dyblu eu pwysau ar enedigaeth erbyn iddynt fod yn 8 wythnos oed
 - Gwybod beth yw cyfradd marwolaeth y fferm (6% ar gyfartaledd)
- Mae lloi sydd dan straen yn fwy tebygol o gael eu heintio.
- Mae bogail llo yn ffynhonnell ar gyfer haint; argymhellwyd y dylid dipio'r bogail.
- Dylid sicrhau bod y siediau wedi'u hawyru'n dda - mae llif aer uwch ben y lloi yn golygu awyru, mae llif aer o dan lefel y lloi yn cael ei ystyried yn ddrafft.
- Arferion brechu.
- Dylid sicrhau bod dŵr glân a ffres ar gael bob amser.
- Dylid bwydo 2kg o rawn i loi benyw a 1kg i loi gwryw er mwyn paratoi ar gyfer diddychu, wedi'i ddarparu mewn cafn ar uchder addas.

Gofynnodd Jeanette i'r grŵp ystyried y canlynol:

- Meincnodi
- Adeiladu perthynas dda gyda'r bobl a'r busnesau lle mae'r ffermwyr yn prynu'r lloi. Ceisiwch ddarganfod cymaint o wybodaeth â phosibl am eu systemau er mwyn i'r cyfnod trosglwyddo rhwng ffermydd effeithio cyn lleied â phosibl ar DLWG y lloi ac ar eu hiechyd yn gyffredinol.


Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 9 digwyddiad gyda 611 o fynychwyr




*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn croesi sawl sector ac felly'n dueddol o ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y sector Cig Coch.

Mentro



Rhaglen Fentora



 Adolygiad Busnes Digidol

 Glaswelltir

 Hunan reolaeth

 Cynllunio

 Cynllunio Busnes

 Iechyd anifeiliaid

Mynychodd 117 o unigolion o'r sector Cig Coch y cymorthfeydd uchod.

Agrisgôp

 CYNHALIWYD CYFARFOD AR THEMA CIG COCH

gyda

 174 O FYNICHWYR

Roedd themâu'r grwpiau'n cynnwys:

 Paratoi ar gyfer ŵyna

 Marchnata cig dafad

 Sgiliau cigyddiaeth ar gyfer cig coch

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

 CYNHALIWYD GWEITHDY

gyda

 1,088 O FYNICHWYR

Gweithdai a gynhaliwyd:

Ymwrthedd i Wrthfotigau

Colledion ŵyna Rhan 1: Erthyly a Maeth

Colledion ŵyna Rhan 2: Colledion ar ôl ŵyna rhwng genedigaeth a diddychu

Rheoli Parasitiaid mewn Defaid Rhan 2: Clafr, Llau a Llyngyr yr Iau

Cyfnwidfa Rheolaeth

Cyfnwidfa Rheolaeth Stuart Hammond, Ionawr 2020

Pwnc: Gallai gwell rheolaeth dechnegol wneud systemau pesgi bîff yn fwy proffidiol

Gwlad: Portiwgal



Yn ystod mis Ionawr 2020, teithiodd y ffermwr pesgi bîff, Stuart Hammond i Bortiwgal i gwblhau ei daith gyfnwid. Mae Stuart yn pesgi 400 o fustych du a gwyn Holstein Friesian bob blwyddyn ar ran Dunbia. Ymgeisiodd i gymryd rhan yn y rhaglen Cyfnwidfa Rheolaeth gan ei fod eisiau gwella ei system er mwyn cyflawni'r cynnydd pwysau byw dyddiol o 1.5kg (DLWG) sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau proffidioldeb ei fusnes. Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd ganddo ar y ffermydd y bu'n ymweld â nhw oedd y dylid cadw systemau'n syml, ac nad yw gwella perfformiad yn ddibynnol ar un peth yn unig – dylai ffermwyr wneud nifer o welliannau'n barhaus o ran cymaint o bethau â phosibl sydd o fewn eu rheolaeth. O ganlyniad i'r daith gyfnwid, mae Stuart wedi datblygu dealltwriaeth werthfawr, ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn helpu ei fusnes. Mae hefyd wedi dechrau cyflwyno newidiadau ar y fferm, megis newid i system wahanol ar gyfer porthi, o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd yn ystod ei daith.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

Digwyddiadau Moch Cyswllt Ffermio a Menter Moch Cymru

Yn ystod mis Chwefror 2020, cynhaliodd Cyswllt Ffermio a Menter Moch Cymru ddau ddigwyddiad yn dilyn o'r digwyddiadau arallgyfeirio moch a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019.

Roedd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cynllunio busnes er mwyn cynhyrchu moch yn broffidiol. Roedd siaradwyr yn ystod y digwyddiadau'n cynnwys Ken Stebbings, Swyddog Menter Moch Cymru, ynghyd â Graham Leaver, arbenigwr moch o gwmni Egis Consultancy Ltd. Dyma rai o'r prif negeseuon a drafodwyd yn ystod y digwyddiadau:

- Mae nifer o ffactorau pwysig i'w hystyried wrth arallgyfeirio i gadw moch, gan gynnwys:

Gwahanol systemau – pa un sydd fwyaf addas – cynhyrchu dan do neu yn yr awyr agored

Cyfleoedd ar y farchnad – sut i farchnata'r cig a gynhyrchir a sicrhau busnes proffidiol

Ffynonellau bwyd – o ble byddwch chi'n prynu'r bwyd

Costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â sefydlu menter moch o'r newydd

Dewisiadau brîd – pa fridiau fyddai fwyaf addas at wahanol ddibenion


- Mae'n hanfodol bwysig bod cynlluniau'n cael eu creu sy'n gweithio'n dda ar gyfer y cynhyrchwr.
- Dylid asesu unrhyw ofynion o ran buddsoddi cyfalaf a chyfalaf gweithio yn ofalus.
- Dylid paratoi ceisiadau ar gyfer benthychiadau'n ofalus ac yn fanwl er mwyn gwella'r siawns o sicrhau benthychiad i gefnogi mentrau moch newydd.

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 267 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb o fewn y sector Cig Coch.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori yn ystod y cyfnod hwn.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori



Cyfanswm fesul categori

■ Busnes

■ Da Byw

■ Tir

BUSNES

 RHEOLI CNOFILOD AR FFERMYDD

DA BYW

 DEFNYDDIO DIP DEFAID YN DDIOGEL

TIR

 CYMORTH CYNTAF MEWN ARGYFWNG

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

MAETHY FAMOG

CLOFFNI MEWN DEFAID

CLAFR DEFAID

CLEFYD JOHNE MEWN DEFAID

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development
European Investment in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio